# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

# - Caerdydd -


Dilynwch daith o amgylch Canol Dinas Caerdydd sy’n tynnu sylw at rai o’r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o’r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.

Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio’r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a’n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i’w weld mewn rhai o’n hardaloedd lleol.

**Y Print Mân**


Wrth fynd ar y daith gerdded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

# Canol Dinas Caerdydd




## Map 1

1. Yr Hen Lyfrgell
2. Marchnad Caerdydd
3. Eglwys Sant Ioan
4. Heol Eglwys Fair
5. Stryd Womanby/ Cwrt Jones
6. Stadiwm y Mileniwm
7. Gwesty'r Angel
8. Wal yr Anifeiliaid
9. Porth y Gorllewin
10. Arcêd y Castell
11. Castell Caerdydd
12. Arcêd Heol y Dug
13. Gerddi'r Brodordy
14-21. Gweler Map 2
22. Y Theatr Newydd
23. Eglwys Gadeiriol Dewi Sant
24. Yr hen farchnad bysgod (Miller & Carter erbyn hyn)
25. Capel Tabernacl
26. Yr Arcêd Frenhinol
27. Arcêd Morgan
28. Howells




## Map 2

1 – 13. Gweler Map 1
14. Neuadd y Ddinas
15. Llys y Goron Caerdydd
16. Cofrestrfa Prifysgol Cymru
17. Adeilad Morgannwg
18. Adeilad Bute
19. Cofeb Genedlaethol Cymru / Gerddi Alexandra
20. Prifysgol Caerdydd (y prif adeilad)
21. Park House

# Taflen Ffeithiau

1. Stryd Womanby yw un o strydoedd hynaf Caerdydd, ei diben gwreiddiol oedd cysylltu Castell Caerdydd â Stryd y Cei. Adeiladwyd Cwrt Jones yn y 1830au i fod yn llety i'r gweithwyr yn y dociau.

2. Agorwyd Stadiwm y Mileniwm ym 1999 (Stadiwm Principality erbyn hyn) â chapasiti ar gyfer 74,500 o bobl gan ei wneud yr unig arena fawr yn y ddinas.

3. Mae Gwesty'r Angel wedi bod yn y lleoliad hwn ers y $18^{fed}$ Ganrif ac felly mae'n un o'r sefydliadau gwesty hynaf sy'n dal i fodoli yng Nghaerdydd. Yn ystod y rhyfel, defnyddiwyd y gwesty gan Lynges yr Unol Daleithiau a chafodd ei ailenwi dros dro yn USS Chattanooga.

4. Mae Wal yr Anifeiliaid i'w weld i'r gorllewin o fynedfa Castell Caerdydd ac mae'n dangos 15 o gerfluniau o anifeiliaid ac mae wedi'i restru'n Gradd I. William Burges oedd y tu ôl i gysyniad y wal wrth ailadeiladu'r Castell.

5. Torrodd Owain Glyndwr, a arweiniodd chwyldro'r Cymry yn erbyn Coron Lloegr, trwy Borth y Gorllewin gyda'i fyddin i feddiannu'r castell ym 1404. Cafodd Porth y Gorllewin a'r bont dros y ffos eu hadfer ym 1921 i'w cynllun gwreiddiol.

6. Adeiladwyd Arcêd y Castell rhwng 1882 a 1889 ac mae'n enghraifft dda o Arcêd Fictoraidd a fyddai wedi cynnwys amrywiaeth o siopau arbenigol – siopau defnydd, pobl yn dweud ffortiwn, gemyddion.

7. Adeiladodd y Rhufeiniaid y gyfres gyntaf o gaerau i Gastell Caerdydd yn y ganrif $1^{af}$ AD. Yn yr $11^{eg}$ Ganrif, adeiladodd y Normaniaid y Tŵr sy'n dominyddu lawnt y castell hyd heddiw. Y teulu Bute weddnewidiodd y tŷ i fod y cartref Gothig Fictoraidd y mae heddiw. Yn ystod y rhyfel, defnyddiwyd y waliau o amgylch y castell yn llochesi cyrch awyr i drigolion Caerdydd.

8. Mae Arcêd Heol y Dug yn enghraifft arall o arcêd siopa Edwardaidd a Fictoraidd.

9. Gwerthodd yr Arglwydd Bute 59 erw o Barc Cathays i Gorfforaeth Caerdydd ag amodau yn cynnwys cadwraeth goed ac ni cheir codi adeiladau ar safle'r gerddi arfaethedig - a Gerddi'r Brodordy yn gynwysedig yn y tir hwn.

10. Mae Neuadd y Ddinas wedi'i adeiladu o garreg Portland ac mae'n enghraifft gynnar bwysig o bensaernïaeth Baróc Edwardaidd. Agorodd yr adeilad ym 1906 ac mae'n gweithredu fel canolfan ddinesig.

11. Mae Llys y Goron yn adeilad rhestredig Gradd I, sy'n cynnwys 10 llys, ac yn ffurfio rhan o Gylch Cymru o Wasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi.

12. Mae Arcêd Heol y Dug yn enghraifft arall o arcêd siopa Edwardaidd a Fictoraidd.

13. Gwerthodd yr Arglwydd Bute 59 erw o Barc Cathays i Gorfforaeth Caerdydd ag amodau yn cynnwys cadwraeth goed ac ni cheir codi adeiladau ar safle'r gerddi arfaethedig - a Gerddi'r Brodordy yn gynwysedig yn y tir hwn.

14. Mae Neuadd y Ddinas wedi'i adeiladu o garreg Portland ac mae'n enghraifft gynnar bwysig o bensaernïaeth Baróc Edwardaidd. Agorodd yr adeilad ym 1906 ac mae'n gweithredu fel canolfan ddinesig.

15. Mae Llys y Goron yn adeilad rhestredig Gradd I, sy'n cynnwys 10 llys, ac yn ffurfio rhan o Gylch Cymru o Wasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi.

16. Cwblhawyd Cofrestrfa Prifysgol Cymru ym 1904 a daeth yn brif swyddfa weinyddol y Brifysgol. Mae'r adeilad o arddull Clasurol gyda cholofnau ïonig ger y fynedfa a manylder dreigiau yn cysgu ar byst yr adeilad blaen.
17. Roedd adeilad Morgannwg yn wreiddiol yn gartref i Gyngor Sir Morgannwg ym 1912. Mae dau grŵp wedi'u cerflunio ym mlaen yr adeilad sy'n cynrychioli cloddio glo (Minerva gyda glowyr) a Mordwyo (wedi'i gynrychioli gan Neifion). Ystyriwyd bod y ddau yn bwysig i ddatblygu economi de Cymru. Erbyn hyn, mae'r adeilad yn gartref i Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd.
18. Agorodd adeilad Bute ym 1916 yn goleg technegol. Mae prif ffasâd yr adeilad o arddull neo-Groegaidd â cholofnau Dorig ar flaen y fynedfa. Prosiect mawr cyntaf y Pensaer Percy Thomas oedd hwn. Mae llawer o'i waith i'w weld yng Nghaerdydd.
19. Dyluniwyd Cofeb Rhyfel Genedlaethol Cymru gan Syr Ninian Comper ac fe'i dadorchuddiwyd ar 12 Mehefin 1928 gan Dywysog Cymru.
20. Agorodd Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy yn ffurfiol ym 1883 gyda 102 o fyfyrwyr – a 15 o'r rhain yn fenywod.
21. Mae Park House yn enghraifft bwysig o dai tref y 19eg Ganrif o arddull gothig Ffrengig yng Nghymru a wnaeth chwyldroi pensaernïaeth ddomestig Caerdydd.
22. Mae'r Theatr Newydd yn adeilad rhestredig Gradd II o bensaernïaeth Edwardaidd. Ar adeg ei hadeiladu, ei llwyfan oedd y mwyaf yn y wlad a'r ddrama gyntaf a berfformiwyd yno ar ôl ei chwblhau oedd Twelfth Night gan William Shakespeare.
23. Mae Eglwys Gadeiriol Dewi Sant yn Eglwys Gadeiriol Gatholig Rufeinig o bensaernïaeth yr Adfywiad Gothig a agorodd yng nghanol y 19eg Ganrif. Adeiladwyd yr Eglwys Gadeiriol yn dilyn mewnlif o fewnfudwyr o Iwerddon a ddaeth i weithio Dociau Caerdydd.
24. Agorodd yr hen farchnad bysgod ym 1901 i werthu pysgod i drigolion Caerdydd o 25 o stondinau. Roedd y stondinau yn eiddo i fusnesau o bob rhan o'r DU o leoedd mor bell â Hull, Grimsby a Manceinion.
25. Mae Capel Tabernacl yn Gapel Bedyddwyr Cymraeg ei iaith. Adeiladwyd yr adeilad yn gyntaf ym 1821 o arddull Eidalaidd. Rhan o'r rheswm dros ei ddynodiad adeilad rhestredig Gradd II yw y cafodd ei ddylunio gan un o'r Penseiri gorau yng Nghaerdydd yng nghanol y 19eg Ganrif – J. Hartland and Son.
26. Adeiladwyd yr Arcêd Frenhinol ym 1858 felly hi yw'r arcêd hynaf yng nghanol dinas Caerdydd.
27. Adeiladwyd Arcêd Morgan ym 1896, a'r bwriad oedd cysylltu Yr Ais â phrif fynedfeydd siop adrannol David Morgan a weithredodd yng Nghaerdydd am dros 125 mlynedd cyn cau ei drysau yn 2005. Ar adeg ei chau, David Morgan oedd siop adrannol annibynnol fwyaf Cymru. Mae'r Parth Creadigol sydd wedi'i leoli i fyny'r grisiau yn yr Arcêd yn gartref i swyddfa Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.
28. Sefydlwyd siop adrannol Howells gan James Howell ym 1865 ac fe'i meddiannwyd yn ddiweddarach gan House of Fraser ym 1972. Mae'r adeilad wedi'i ymestyn sawl gwaith ers ei adeiladu yn gyntaf – ac mae hyd yn oed capel yn ei ganol. Mae'r gwahanol arddulliau pensaernïaeth poblogaidd i'w gweld wrth gerdded o amgylch yr adeilad. Mae'r arddulliau pensaernïol yn amrywio o Fictoraidd Hwyr, Neo-glasurol a moderniaeth y 1960au.